

Adlais

Y dosbarthaiadau cymraeg

Golygyddol

Hoffwn ni groesawu criw Llanbedd 2000 yn ôl i'r Wladfa ar ôl treulio dau fis yng Nghymru. Mae'n braf eich clywed yn siarad llawer o Gymraeg. Gobeithio rwan y byddwch yn cael digon o gyfleoedd i siarad Cymraeg trwy weithgareddau cyhoeddus fel yr eisteddfodau, nosweithiau llawen, diwrnodau te neu mewn gwasanaethau yn y capeli. Byddai hyn yn gosod esiampl i bawb sy wrthi ar hyn o bryd yn dysgu Cymraeg.

Braf oedd clywed y Gymraeg ar lwyfan Eisteddfod y Bobl Ifanc yn y Gaiman. Roedd yn braf hefyd gweld cymaint o bobl ifanc yn cystadlu ar y cystadlaethau Cymraeg. Llongyfarchiadau i bawb.

Bellaeh, gallwch brynu cardiau cyfarch Cymraeg / dwyieithog yn Neuadd Dewi Sant. Mae yna ddwy gyfres: 'Cyfres y Wladfa' a 'Cyfres Dw i isio...'. Gallwch hefyd brynu poster A4 'Hen Wlad Fy Nhadau', 'Calon Lân', 'Hafan Gobaith' (sy'n cynnwys llun o Gwm Hyfryd), 'Sospan Fach', 'Cymraeg / Castellano', ac arwyddion 'Ar Agor'.

Ar Gau' a 'Siaradir Cymraeg yma'. Brysich i'w prynu cyn iddyn nhw werthu allan!

Bwriadwn gyhoeddi Adlais pob mis o hyn ymlaen. Mae'n fwrriad ganddon ni hefyd i sefydlu pwyllgor gwaith, ac i gael Swyddog Hysbysiebon, Swyddog Dosbarthu, Swyddog Nawdd ac ati, yn ogystal â phobol mewn ardaloedd/trefi gwahanol i gynnal cyfweiliadau efo pobol ddi-ddorol neu i gasglu pytiâu ar gyfer y papur. Hoffwn ni gael y deunydd i'r papur nesaf erbyn y dydd olaf o fis Hydref. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn helpu, yna siaradwch efo'ch athro Cymraeg.

Mae ganddon ni golofnau newydd yn Adlais i mis yma: Dyddiadur Dysgwyr Direidus, Cornel y Plant, Tudalen y Bobl Ifanc a chystadlaethau i bobl ifanc. Mwynhewch y darllen, a chofiwch adael i ni wybod beth yr hoffech ei weld yn Adlais. Tan tro nesa', ta ta.

Penwythnos Eisteddfod y Bobl Ifanc

Mi wnes i godi yn y bore ac mi wnes i fynd i Gaiman efo Sonia a Silvia yn y car. Mi wnaethon ni weithio yng Nghapel Bethel tan ddeuddeg o'r gloch. Roedd llawer o blant bach yno, o 4, 5 a 6 oed. Mi wnaethon ni fynd i'r capel achos roedd rhagbrofion Eisteddfod y Bobl Ifanc yno. Roedd yr adrodd yn neis iawn!

Yn y pwnn mi wnaethon ni fynd i Gaiman eto o hanner awr wedi saith. Dyma pryd ddechreuodd yr Eisteddfod. Mi wnes i fwynhau gwranddo ar blant bach a phobol ifanc yn canu ac yn adrodd. *Cyfrannais trwy ysgrifennu enwau'r enillwyr ar y tystysgrifau.*
Anita Lewis, Trelew

Ras a Chogolafn i Gofio'r Fintai Gyntaf

Dathlwyd Wyl y Glaniad eleni mewn dull arbennig iawn ym Mhorth Madryn. Trefnwyd ras ddi-ddorol a lwyd 'Ras y Gasgen' oherwydd yr amcan oedd symud dwy gasgen efo 200 litr o ddwr yndynt o'r hen otsaf reilffordd (sef yr otsaf fysiau heddiw) at Punta Cuevas. lle fu'r Cymry yn byw ar ôl iddynt lario yn 1865.

Cystadlodd dau dim yn y ras: 'Yr Ymfudwyr' yn erbyn 'Y Brodorion', a hynny er mwyn cofio'r gemau rhwng y ddau grwp a gymerodd le yn ystod Wyl y Glaniad gyntaf yn 1867.

Amcan arall 'Ras y Gasgen' oedd i gofio'r anhawsterau a fu gyda'r fintai gyntaf i drosglwyddo dwr o llyn a fu yr adeg honno nid

Siarad Cymraeg Dros Baned!

Heddiw, dydd Gwener cynta Medi, dan ni wedi dod at ein gilydd yn nhy Elsie i siarad Cymraeg.

Fel arfer mae Hawys yn ein helpu ni, a hynny efo mate wrth gwrs! Mae meistrs ty yn hapus dros ben efo ffrindiau annisgwyl. Dan ni yn meddwl ac yn meddwl i'w galed am rywbeth diddorol i'w ysgrifennu. Yn sydyn, mi nathon ni deall! Mae Hawys yn deud y bydd pwyllgor newydd yfory "Fundación Amigos de la Colectividad Galesa." Dalio ymlaen i sgwrsio am sbel arall a chael pwnn hapus yn siarad Cymraeg, ac yn yfed cawpanau o de!

Anita, Celia, Elsie a Hawys, Trelew



Trelew yn rhifyn diwethaf o Adlais, cafodd enw ei mab ei ysgrifennu yn anghywir. Nestor ydy'r enw cywir.

nepell o'r orsaf, tan yr ogofau, pedair milltir i ffwrdd. Heddiw, yn y lle hwn, gosodwyd gogolofn-ungarreg gyda enwau bob un o'r fintai a laniodd ym Mhorth Madryn yn 1865. Mae eu henwau wedi eu cario ar un o ochrau'r garreg. Dyma'r gogolofn gyntaf yn Y Wladfa sydd yn cynnwys rhestr gyflawn o'r sefydlwyr cyntaf. Mae'n gyfiawn i weld enwau ein cyndadau yn yr union fan lle ddechreuodd yr antur Batagonaidd i bob un ohonynt. Hefyd, gadewch i mi ddweud cyn i mi adael Punta Cuevas a'i hanes gwerthfawr, bod y lle hwn newydd dderbyn adnabyddiaeth fel "Lugar Histórico Nacional" gan y "Comisión Nacional de Museos, Monumentos y Lugares Históricas."

Fernando Coronato, Porth Madryn

Dyma gerddi gan Clydwyn ap Aeron Jones, Porth Madryn am enwau rhai o'r hen Wladfawyr ac am enwau ffermydd Chubut. Tybed faint o'r enwau yma sy'n gyffredin yn y Wladfa heddiw? Llongyfarchiadau i Clydwyn ar gael ei dderbyn i Orsedd y Beirdd, Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 2000, am fe'i gyfraniad i gerddoriaeth



yn yr Ariannin.

Enwau Rhai o'r Hen Wladfawyr

Thomas Williams a Lewis Jones
David Charles a John Ap Hughes,
Edwin Roberts a Morris Humphreys
Tomas Morgan a William Pugh.

William James a Robert Thomas
Griffydd Pugh ac Isaac Davies,
Amos Williams a Llwyd Ap Iwan
Idris Lewis a Thomas Ellis.

Enwau Ffermydd Yn Y Wladfa
Dyffryn Dreintog a Thal y Llyn
Pias Hedd a Chastell Iwan,

Perthu Gleision a Bryn Amlur
Pant y Meillion a Pharc y Llyn.

Pant y Blodau a Pharc yr Escob
Morfa Fawr a'r Plas Gwyn,
Bryn Moelwyn a Bod Arthyr
Maes yr Haf a Pharc y Llwyn.
Clydwyn Ap Aeron Jones

Mae Clydwyn yn hoffi'r englynion yma. Mae'r naill yn sôn am Anibendod a'r llall yn sôn am lawer mewn ychydig. Wyddon ni ddim pwy ysgrifennodd yr englynion. Dach chi'n gwybod?...

Anibendod

Iet y clos heb ei osod
Cath a chi yn llawn syndod,
Bwrdd hesb, babi ar ddod
Dyna fwndal o anibendod.

Llawer Mewn Ychydig

A charreg a chaegeg a chosyn
Chwa haul a chwidod yr nedyn
Chwys meichiau a choes
mochyn,
Llew ac arth a flo gwyn.

Ymddiheuriad

Ym mhwt Celia Hughes.

Pwt o Dreflew



Llongyfarchiadau i Barti Gwendolin am ennill i'w wobwr gyntaf am gyd-adrodd 'Cnoc Cnoc' yn Eisteddfod y Bobl Ifanc: Gwendolin, Valentine, Flavia, Maria Laura a Romina. Llongyfarchiadau hefyd ar yr adrodd unigol - Gwendolin a Romina yn gyntaf, Valentina yn ail a Paula yn drydydd; a phawb enillodd am lunio poster yn hysbysu un o dai te'r Gaiman. Da iawn chi.



De todo un poco

de Vivian Jones

BAZAR - LIMPIEZA - REGALERIA

E. tello 230 - Gaiman

Tudalen 6

Adlais

'Fi' gan Flavia Buttazzi, 10 oed, Gaiman



Flavia dw i. Dw i'n byw yn Gaiman mewn ty. Dw i'n byw gyda Mam, Dad, chwaer a ci.
Dw i'n mynd i Ysgol 100 yn Gaiman. Dw i'n mynd i'r ysgol yn y bore ar fy mhen fy hun a dw i'n chwarae yn yr ysgol gyda Brenda, Yoni, Poli a Luis.
Dw i'n mynd i wersi Cymraeg Menna yn Ysgol Cant a dw i'n siarad Cymraeg gyda Brenda, Cindy, Luis, Ezeziel, Daiana, Mariana a Menna.

'Fi' gan Florencia Soria, 12 oed, Dolavon

Dw i'n byw yn Nolavon mewn ty. Dw i'n byw gyda Mam ac Elias. Dw i'n mynd i'r ysgol yn Nolavon. Dw i'n mynd i'r ysgol gyda Cynthia a Mauro. Dw i'n chwarae gyda Cynthia, Mariana, Danilo, Mauro, Nico, Betania a Julietta yn yr ysgol.
Dw i'n siarad Cymraeg gyda Nivia, Menna, Cynthia, Yanina, Daiana a Janet.

Cystadlu yn Eisteddfod y Bobl Ifanc, 2000

Sofia Garavano dw i. Dw i'n 12 oed a'n byw yn Gaiman. Dros benwythnos y 15fed a'r 16eg o Fedi 2000 roedd Eisteddfod y Bobl Ifanc yn Gaiman ac mi wnes i gystadlu yno.

Ar y dydd Gwener mi wnes i fynd i'r rhagbrofion yn y bore. Mi wnes i gystadlu ar y gystadlueaeth canu i blant 10 ac 11 oed a'r darn oedd 'Robin Goch Yr Eira'. Mi wnes i gystadlu ar lawer o gystadlueithau i bartion hefyd.

Mi wnes i gystadlu gyda Iara, Camila, Kevin a Yamila ar y gystadlueaeth cyd-adradd hefyd. Y darn oedd 'Cnoc Cnoc'.
Mi wnes i gael llwyfan ar y cystadlueithau 'Robin Goch Yr Eira', 'Cnoc Cnoc', 'Y Doethion', 'El Amigo', 'Oh Pajarillo Que Cantas', 'Noson Tân Gwylt' ac 'Angylion y Plant'.

Dyma lun o Sofia a'r grwp yn ymarfer ar gyfer y gystadlueaeth cyd-adradd 'Cnoc Cnoc'.

Natalia dw i. Dw i'n 15 oed ac yn byw yn Gaiman.

Dros benwythnos y 15fed a'r 16eg o Fedi 2000 roedd Eisteddfod y Bobl Ifanc yn Gaiman, ac mi wnes i gystadlu yno.

Ar y dydd Gwener mi wnes i fynd i'r rhagbrofion yng nghapel Bethel yn y bore. Mi wnes i gystadlu ar gystadlueithau canu i blant hyd 25 oed. Y darnau oedd 'Dwylo Dros y Mor', 'Stella', 'Avignon', 'Himno a la Creacion', 'Lanka Taiel' ac 'A la Huella'.

Mi wnes i gael llwyfan ar bob un o'r cystadlueithau yma.

Rwy'n hoffi cystadlu mewn eisteddfodau ac mi wnes i fyw'nau fy hun yn fawr iawn yn yr eisteddfod yma.



COLOFN Y DYSGWR DIREIDUS

Helo, sut dach chi?
Rydwi'n dysgu Cymraeg am awr ddwywaith yr wythnos. Mae'r tiwtor yn fywiog iawn ac yn neidio o gwmpas o flaen y dosbarth. Does dim amser i loncian, felly rhaid "cadw'n heini" yn y gwersi. Mae gan y tiwtor broblem cofio, dwi'n meddwl. Mae pob gwrs yn dechrau efo:

Pwy dach chi?
Lle dach chi'n byw?
O le dach chi'n dod yn wreiddiol?
Be dach chi'n neud?

Dwi wedi ateb y cwestiynau yma tua wyth gwaith erbyn hyn, ond mae'r cwestiynau yn dal i ddod! Dwi'n teimlo fel parot. Rhaid i mi ysgrifennu'r atebion i lawr er mwyn helpu'r tiwtor. Bechod!

Mae'r tiwtor yn fuseslyd ofnadwy. Pam holi am y teulu, lle dwi wedi bod ar wyliau, lle dwi wedi aros ac efo pwy? Dydy hynny ddim yn ddigon chwaith. Ar ôl ateb cwestiynau'r tiwtor, rhaid i ni holi ein gilydd. Dwi'n gwybod enwau pawb a lle maen nhw'n byw. Does dim rhaid i mi ofyn iddyn nhw.

Wel, dyna fo. Mwy o newyddion o'r gwersi Cymraeg yn yr Adlais nesaf.
Hwyl. Wela i chi.

DOSBARTHIAU CYMRAEG COMODORO

Bu dathlu Gwyl y Glaniad yn gyfle i'r Gymdeithas leol ddweud gair arbennig am wasanaeth yr athro Juan Carlos (Siôn) Davies o'r Gaiman sydd o hyd yn arddangos ei ddi-ddordeb a'i hael gymorth tuag atom. Teimlwn fod y cais yn dal yn fyw trwy ei lafur ef a llawer o gefnogaeth rydym yn ei gael oddi wrth ein cyfaill Y Br. Gwilym Roberts, o Gymru'n awr, a hefyd gan Mrs Luned Roberts de Gonzalez o'r Gaiman. Credwn bydd ein dosbarth Cymraeg yn wynebu gwell dyfodol gan fod dwy o aelodau'r cwrs wedi cael mantais i wella eu Cymraeg yng Nghymru, sef Nany Davies Freye y llynedd a Lilianna A. Freeman Moreno sydd newydd gyrraedd yn ôl ar ôl bod am fis yn Llanbedr Pont Steffan. Mwynhaodd y profiad a'r cyfle i gael ei hyfforddi'n llwyddiannus yn yr iaith mewn prin amser. Mae'r ddwy yn ddiolchgar am bob cymorth. Mae gobaith eto i gael cyfle arall at ddylanwadu a chryfhau'r dosbarthiadau yn Comodoro, os cawn berswadio aelod blaenllaw eto yng Nghymru, sef Walter Ariel Brooks i ddod adre'n fuan. Pob anrhydedd iddo ef hefyd.

Croeso eto i'r athrawon o Gymru, sy'n awr yn y Dyffryn, i gadw dosbarthiadau yma ar y Sadwrn, fel mae'n bosibl.

EILYW PRITCHARD ar ran CYMDEITHAS DEWI SANT COMODORO RIVADAVIA

DYSGWYR YR ANDES

Ar y 23ain o Fedi, cafwyd cwrs Cyfrifiaduron gyda Rhys Llewelyn Jones yn Nhrefelin. Ymunodd Sandra de Pol gyda'r athrawesau Cymraeg ar y prynhawn Sadwrn. Roeddwn wedi rhyfeddu at ei gallu i siarad Cymraeg. Dyma, yn amlwg, un sy'n wirioneddol haeddu'r fraint o gael ei galw'n Ddysgwraig y Flwyddyn-yr anrhydedd enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanelli 2000.

Ar y Nos Wener, cafwyd cyfarfod yn Nhŷ Capel Bethel, Trefelin i groesawu Omar Roberts adre o Lanbedr Pont Steffan. Roedd wedi mwynhau ei brofiad yng Nghymru yn fawr iawn.

Nans Rowlands

DYDDIADUR LLANBEDR PONT STEFFAN

Es i Gymru gyda fy merch Antonella am ddau fis a hanner.

Gwnes i gwrs Cymraeg yn Llanbedr am wythnos gyda phum person o Batagonia.

Arhosodd fy merch gyda'r teulu Glyn yn Waunfawr, ger Caernarfon a'r teulu Jones yn Llanpumpsaint, pentre bach ger Caerfyrddin.

Tra rôn i yn gwneud y cwrs yn Llanbedr, ces i amser i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli a hefyd i Dy Ddewi yn Sir Benfro, Celtica ym Machynlleth ac Ystrad Fflur ger Tregaron.

Roedd y profiad yn ardderchog i mi a hefyd i Antonella. Diolch yn fawr iawn i bawb sy wedi bod yn fy helpu i yn y Dyffryn ac hefyd yng Nghymru.

REBECA WHITE

Annwyl ddarllenwyr yr Adlais

Wel dyma fi yn ôl yn y Gaiman ar ol dau fis yng Nghymru. Mi wnes i gwrs Wlpan Cymraeg yn Llanbedr dros wyth wythnos. Dan ni wedi astudio a gweithio yn galed ond mwynehuais i drwy'r amser yn yr Hen Wlad.

Mi hoffwn i ddweud rhywbeth bach am fy mhrofiad. Dwi'n meddwl bod y cwrs yn ardderchog i ddechrau siarad a deall Cymraeg. Roedd athrawon newydd gyda ni bob wythnos. Roedd hyn yn dda iawn i fynd i arfer clywed acenion gwahanol achos siarad ydy'r peth pwysig ond deall ydy'r mwyaf diddorol.

Os byddwch chi'n dewis gwneud cwrs Cymraeg, Llanbedr ydy'r lle gorau i fynd. Digon o ymarfer siarad, digon o ysgrifennu a gramadeg. Does dim amser i ymlacio o gwbl! Caswom ni gyfle i ymweld â'r wlad a chyfeillion annwyl o Gymru.

Nawr, mi fydda i'n dal ymlaen gyda'r cwrs Cymraeg yn y Gaiman gyda chyn fyfyrwyr cwrs Llanbedr. Diolch o galon i bawb sydd wedi helpu i mi fynd ar y cwrs.

Tan tro nesaf.

ANA PINCIROLI

PLAS Y COED
CASA DE TE



ANEXO HOSPEDAJE

Miguel D. Jones 123
Gaiman - Chubut

Tel (02965) 491113

de Maria R. de Rees

Librería

Todo lo perteneciente al ramo
ATENCIÓN ESMERADA
DEWIS DA
GARDIAUPENBLWYDD AC
ERAILL LLE ARDDEROCHOG AM
FOTOCOPIAS

Almafuerte

LEWIS JONES 287
TRELEW

TUDALEN Y BOBL IFANC

Adlais yn holi y tu allan i'r dosbarth Cymraeg

Wnest ti fwynhau Eisteddfod y Bobl Ifanc?

Do, Rôn i'n gorfod arwain y sesiwn olaf ar y nos Sadwrn. Roeddwn i'n arwain y cystadlaethau Cymraeg yn arbennig: adrodd, canu a dawnsio. Dw i'n credu bod safon y bobol oedd yn cystadlu yn arbennig o dda. Dw i'n credu bob blwyddyn bod pwyllgor y Steddfod yn trio gwella ychydig ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac eleni dw i'n meddwl eu bod nhw wedi bod yn arbennig o dda. Roedd o'n bweythnos da iawn.

Juan Davies, Gaiman



Do mi wnes i fwynhau'r Steddfod. Mi wnes i ganu yn y côr, unawd a deuawd. Caneuon y côr yn Gymraeg oedd 'Dwylo Dros y Môr' a 'Himno a la creación' yn Sbaeneg. Mi wnes i ganu deuawd yn Gymraeg efo fy mrawd Guillermo, ac mi wnaethon ni gael y wobr



gyntaf. Mi wnes i fwynhau'r canu, a dw i'n cystadlu ers tair blynedd.

Andrés Evans, Gaiman

Mwynheais i Steddfod y Bobl Ifanc. Mi oeddwn i yn canu efo'r côr, a dyma wnes i fwynhau fwyaf. Mi wnaethon ni ennill efo'r côr.

Ivonne Jones, Gaiman

Mi fues i'n beirniadu



dawnsio gwerin yr Ariannin. Roedd tua phump o grwpiau a thri phâr. Roedd y safon yn dda ac mi wnaethon nhw berfformio'n dda. Yr hyn sy'n aros yn y cof i mi am y Steddfod yw Côr y Gaiman ar ddiwedd y noson. Dw i'n falch o weld bod pobol ifanc yn dal i gystadlu ac isio siarad mwy o Gymraeg pob blwyddyn.

Tio Lewis, Dolavon

Do, mi wnes i fwynhau llawer. Dyma oedd y flwyddyn gyntaf i mi weithio efo pwyllgor y Steddfod fel ysgrifenyddes. Mi wnes i fwynhau'r gwaith a gweld pobol ifanc a phlant yn canu, dawnsio ac adrodd. Mi wnes i fwynhau y ddawns flodau efo'r genod bach. Dywedodd y beirniad fod y safon yn uchel eleni, felly roedd hyn yn dda iawn.

Miriam Jones, Gaiman



Gwener o Hwyl

Ar ddydd Gwener, Medi'r 8fed 2000 cawfwd awr a hanner o hwyl trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Camwy gyda phlant hyd 12 oed ysgolion Cant, Bryn Gwyn a Lle Cul sy'n mynychu gwersi Cymraeg Menna.

Daeth y plant ynghyd i greu breichledau cyfeillgarwch, pinio cynffon ar i ddraig tra wedi eu dallu, dyfalu lleoliad pêl droed ar grid a chwarae gêmiau parti amrywiol gyda'i gilydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd bawb amser da ... diolch yn fawr iddynt am ddod, ac i Miss Heledd Daniel am ei chymorth parod.

Cofiwch fod croeso i holl ddisgyblion 8 hyd 12 oed y gwersi Cymraeg yn y Dyffryn ddod i Goleg Camwy POB prynhawn Gwener rhwng 3 a 4.30 er mwyn cymryd rhan yn y chwaraeon awyr agored sy'n digwydd yno trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dewch i fwynhau yn Gymraeg, blant!

CASA DE TE

Tu Gwyna

9 de Julio 111 - Tel: (02965) 491009
Gaiman - Chubut - Patagonia Argentina
E-Mail: tygwyn @ cpsarg.com

HELO RADIO CYMRU!

Mae Radio Cymru yn dod drosodd eleni eto i Eisteddfod y Wladfa i recordio rhaglenni.

Mi fyddant yn praratoi pedair rhaglen ddogfen hanner awr ar fywyd pobol ifanc. Yn ôl Rhisiart Arwel, Cynhyrhydd y rhaglenni, "Bydd Daf Du, y cyflwynydd, isio rhannu profiadau efo pobol ifanc Patagonia." Ychwnegodd, "Bydd o isio gweld sut ma' nhw'n byw, be ma' nhw'n licio 'i neud yn eu hamser hamdden, lle ma' nhw'n licio mynd gyda'r nos, pa gerddoriaeth maen nhw'n fwynhau gwranddo arno fo ... yn wir ... POB dim i' neud gyda'u bywydau nhw."

Yn ystod y Steddfod, byddant yn recordio'r holl weithgareddau ac yn paratoi rhaglen awr a hanner o hyd ar ôl mynd yn ôl i Gymru. Yn ogystal â chael cyfle i glywed gorauon o'r cystadlu, bydd Dafydd yn sgwrsio â'r cystadlwyr a'r bobol fydd wedi dod i fwynhau'r Steddfod.

Mae Daf Du yn un o sêr enwocaf Cymru. Mae'n wreiddiol o ardal Llanrug yng Ngogledd Cymru ac yn fab i Arwel Jones, Hogia'r Wyddfa. Aeth i Ysgol Brynrefail, Llanrug, a threuliodd dair mlynedd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn astudio Ffiseg y Planedau a'r Gofod. Bellach ma' yn byw yng Nghaerdydd ers yn agos i ddeg mlynedd. Wedi cychwyn gyrfya gyfryngol yn cyflwyno rhaglenni teledu, a dal yn wyneb rheolaidd ar S4C, mae bellach yn fwy adnabyddus fel llais dyddiol ar

BBC Radio Cymru yn cyflwyno rhwng 3 a 5 pob p'nawn.

Dywedodd Daf, "Ers i mi ddarganfod fy mod yn mynd i gael y cyfle i ymweld â'r Wladfa dwi wedi bod yn holi perffed pawb dwi'n adnabod sydd wedi bod yno. Toes gan neb air



drwg i ddeud am y lle felly, erbyn hyn, dwi'n edrych ymlaen i syrthio mewn cariad â'r ardal fy hun. Dwi hefyd yn edrych ymlaen i brofi maté, asado a 'Quilmes'!"

Yn yr asado ar y dydd Sul wedi'r Eisteddfod, byddant yn recordio rhaglen o hwyl fydd yn cynnwys cerddoriaeth o dde America a Chymru yn ogystal â chystadlaethau efo pobol ifanc y Wladfa. Felly, ewch yno i fwynhau'r hwyl!

Be sy ar y We?

<http://www.bbc.co.uk/cymru/> Cyfle i chi ddarganfod mwy am Dafydd Du neu yrru neges e-bost iddo!

www.llgc.org.uk Ewch i safle Ymgyrchu! Ac mi gewch chi hanes gwleidyddol a chymdeithasol Cymru yn ystod y ganrif ddiwethaf, a hynny yn Gymraeg, Sbaeneg a Saesneg.

www.acen.co.uk Safle i ddsygwyr.

Beth yw eich hoff wefan chi? Gadewch i Adlais wybod...

CYSTADLUJAETH... CYSTADLUJAETH... Cyfle i ennill crys 'T' Cymraeg.

Ers sawl blwyddyn mae Daf Du yn byw yng Nghaerdydd?

Rhowch eich hateb a'ch cyfeiriad i'r athrawon Cymraeg neu gadewch nhw yn Neuadd Dewi Sant.

Dyddiad cau: Hydref 31.

Cwrs Wlpan 2000

Bues i yng Nghymru am ddau fis ar gwrs Wlpan yn Llanbed. Dw i wedi mwynhau y cwrs ac wedi dysgu llawer iawn o bethau newydd. Rôn i'n gallu teithio a dod i nabod llefydd diddorol. Ges i amser ardderchog gyda chriw Patagonia. Dw i eisiau diolch am bopeth i bawb sy wedi gwneud hyn yn bosib i mi allu mynd i ddsygu Cymraeg yng Nghymru.

Marisa Ansaldo, Trelew



POPETH AT WASANAETH POBL Y FFERMYDD LLE DA I BRYNNU HADAU

Paraguay 55 - Trelew
Teléfono: 436259